Adroddiad Arolygu

**Dewin Disglair Dechrau'n Deg**

**Canolfan Gymunedol Ringland**
**Uned Dechrau'n Deg**
**Cylch Ringland**
**Casnewydd**
**NP19 9PS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/12/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Dewin Disglair Dechrau'n Deg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaeth Gofal Plant a Chwarae Cyngor Dinas Casnewydd |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo yn y gwasanaeth. Maent yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau ac mae dewis da o amrywiaeth eang o adnoddau ar gael iddynt i ddatblygu nifer o sgiliau. Anogir annibyniaeth y plant drwy gydol y sesiwn.

Mae'r staff yn broffesiynol ac wrth eu bodd yn gweithio gyda phlant.  Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn dda. Mae'r staff yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar tuag at ei gilydd a'r plant. Maent yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant drwy amrywiaeth eang o weithgareddau a gynlluniwyd a gaiff eu harwain gan ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant. Mae'r staff yn cadw cofnodion manwl o gynnydd y plant ac yn monitro eu datblygiad yn dda iawn.

Mae'r amgylchedd yn lân iawn, yn groesawgar ac wedi'i drefnu'n dda er mwyn i'r plant allu cael gafael ar yr adnoddau yn annibynnol. Mae digon o le yn yr ardal chwarae dan do, ac mae ardal awyr agored fawr ar gael iddynt sy'n cynnwys digon o adnoddau. Mae'r plant yn rhydd i ddewis yr hyn yr hoffent chwarae ag ef. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae gwiriadau diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer yr adeilad.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn rhagorol. Mae'r tîm rheoli yn gryf iawn ac yn awyddus iawn i ddarparu gwasanaeth neilltuol. Mae amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau i gefnogi'r gwaith o redeg y gwasanaeth, a chânt eu diweddaru'n rheolaidd.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lawer o ddewisiadau a chyfleoedd i wneud penderfyniadau am sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn gwybod bod y staff yn gwerthfawrogi pan fyddant yn cyfathrebu â nhw, ar lafar ac ar ffurf ddieiriau, felly mae eu hanghenion a'u dymuniadau yn cael eu parchu. Mae lleisiau'r plant yn bwysig yn y lleoliad. Caiff eu gwaith celf a lluniau ohonynt yn chwarae eu harddangos drwy'r lleoliad. Mae hyn y rhoi ymdeimlad o berchnogaeth a pherthyn i'r plant. Caiff eu hoff bethau a'u cas bethau eu hystyried wrth gynllunio gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo, yn hyderus ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Mae'r plant yn ymdopi'n dda wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni/gofalwyr ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r drefn sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd a pherthyn iddynt. Gwelsom ddau blentyn yn cyd-chwarae'n hapus â'r garej ceir ac yn chwerthin gyda'i gilydd wrth wthio'r ceir lawr y ramp. Maent wedi datblygu cydberthnasau cadarn â'r staff gofal. Er enghraifft, gwelsom y plant yn mynd at y staff i gael maldod.

Mae'r plant yn dechrau meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac iach â'u ffrindiau a'r staff yn unol â'u hoedran a'u cam datblygiad. Maent yn chwarae â'i gilydd yn hapus ac yn croesawu ymwelwyr i'r lleoliad. Gwnaethant ein cyfarch â gwên a dywedodd un plentyn yn llawn cyffro '*I see reindeers in the farm'* wrth sôn am wibdaith Nadolig. Mae'r plant yn dangos parch at eraill, sy'n cael ei annog yn gadarnhaol gan y staff. Gwelsom blentyn yn cael sticer am helpu ei ffrindiau i dacluso, roedd yn gwenu'n falch wrth gael ei wobrwyo.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant, ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Gwelsom blant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd 'blwch tap tap' ac roedd pob plentyn yn aros yn eiddgar em ei dro i ddewis hwiangerdd. Maent yn dangos sgiliau canolbwyntio da ac yn ymuno â'r hwiangerddi a'r caneuon gyda gwên ar eu hwynebau. Mae amrywiaeth rhagorol o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol ar gyfer oedran y plant ar gael iddynt. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau annibynnol o ran y pethau yr hoffent chwarae â nhw. Gwelsom y plant yn gwneud dewis brwd i addurno addurn Nadolig fel rhan o'r gweithgaredd â phwyslais penodol a oedd yn cael ei gynnig iddynt.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Gwelsom rai plant yn gweini eu hunain ac yn arllwys eu diodydd eu hunain yn ystod amser byrbryd. Fodd bynnag, ni chafodd bob plentyn y cyfle hwn. Anogir y plant i wisgo a diosg eu cotiau eu hunain wrth baratoi i chwarae yn yr awyr agored a phan fydd yn amser mynd adref. Mae'r staff ar gael i gefnogi'r plant ond maent yn annog y plant i roi cynnig arni eu hunain cyn ymyrryd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn rhoi gweithdrefnau ar waith yn dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac i hybu eu datblygiad a'u llesiant. Mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau, yn ogystal â gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd. Fodd bynnag, roedd rhai peryglon gyda phlygiau a gwifrau o fewn cyrraedd y plant. Gwnaethom dynnu sylw'r arweinwyr at hyn yn ystod yr arolygiad a gwnaethant weithredu ar unwaith i ymdrin â hyn. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau diogelu a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae gwybodaeth am y plant ar gael yn hawdd i'r staff ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am alergeddau'r plant, eu gofynion deietegol, a'u hanghenion meddygol. Maent yn hyderus wrth gofnodi damweiniau a digwyddiadau ac wrth roi meddyginiaeth a ragnodwyd. Rhoddir blaenoriaeth uchel i fwyta'n iach ac mae'r byrbrydau sy'n cael eu gweini yn cynnwys darn o ffrwyth a/neu lysiau yn ogystal â dewis o laeth neu ddŵr. Mae'r plant yn golchi eu dwylo yn annibynnol cyn i'w bwyd gael ei weini. Mae'r staff yn sicrhau bod profiadau chwarae yn yr awyr agored ar gael i'r plant bob dydd, gan gynnig manteision ymarfer corff ac awyr iach iddynt. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion y plant. Mae'r staff yn trin y plant yn garedig ac mewn modd digynnwrf, ac yn arfer strategaethau rheoli ymddygiad priodol. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn modd caredig, amyneddgar a gofalgar. Maent yn sgwrsio'n naturiol â'r plant er mwyn cefnogi eu chwarae a'u dysgu. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant, a'i effaith ar ymddygiad plant. Maent yn defnyddio llawer o ganmoliaeth i annog ac atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Clywsom aelod o staff yn dweud "*Da iawn"* wrth blentyn pan oedd yn garedig i ffrind. Mae gan y staff gydberthnasau da ac maent yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd.

Mae gan y staff sgiliau a gwybodaeth effeithiol i nodi anghenion unigol y plant ac i gynllunio cyfleoedd chwarae a dysgu priodol. Maent yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn dda iawn. Maent yn arsylwi ar y plant yn chwarae ac yn dysgu yn rheolaidd er mwyn olrhain eu cynnydd. Mae hyn yn helpu'r staff i gynllunio gweithgareddau er mwyn galluogi camau dysgu a datblygu nesaf y plant. Mae systemau ar waith i fonitro a nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sy'n dod i'r amlwg, ac mae'r staff yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i gefnogi'r plant. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain sy'n eu cymell i ddysgu. Ceir defnydd rhagorol o'r Gymraeg yn y lleoliad. Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn gyson, gan ddefnyddio ymadroddion a geiriau syml gyda'r plant, ac mae'r plant yn dechrau eu deall.

## Yr Amgylchedd — Rhagorol

Mae'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig lle da i'r plant chwarae a dysgu. Maent yn sicrhau mai dim ond mynediad awdurdodedig a ganiateir i'r lleoliad, a chedwir cofnodlyfr o unrhyw ymwelwyr. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch o'r amgylchedd er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant, a dileu'r risgiau hynny lle bo modd.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar iawn ac yn addas i'r plant. Mae'n darparu ardaloedd golau â digon o le sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous iawn i'r plant archwilio. Mae lliwiau niwtral a thawel y lleoliad a'r lluniau sydd wedi'u harddangos o'r plant yn creu ymdeimlad cysurus o gartref oddi cartref. Mae'r prif ystafelloedd chwarae wedi'u trefnu'n dda i hyrwyddo pob maes o ddatblygiad y plant. Mae amrywiaeth bwrpasol o adnoddau, gan gynnwys eitemau bywyd go iawn ac eitemau amlddiwylliannol, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ddiwylliannol a'r byd o'u cwmpas. Mae arddangosfeydd ar y waliau yn cynnwys enghreifftiau o waith celf y plant sy'n dathlu eu cyflawniadau, gan roi ymdeimlad o falchder a pherthyn iddynt. Mae'r adnoddau yn yr ardal awyr agored fawr o ansawdd rhagorol ac yn hybu chwilfrydedd y plant ac yn eu hannog i archwilio. Mae'r rhain yn cynnwys tywod, dŵr, cyfarpar cydbwyso, hambwrdd twff, ardal blannu, cegin, ardal gwneud marciau a ffrâm ddringo. Mae digon o gyfleoedd ar gael i'r plant dan do ac yn yr awyr agored i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau echddygol manwl a bras.

Mae gan y lleoliad ddodrefn ac adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau maint plant, unedau storio teganau lefel isel a phegiau cotiau ar gyfer eiddo'r plant. Mae nifer addas o doiledau plant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael. Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu cadw'n lân ac yn ffres.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Rhagorol |
|---|---|

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn rhagorol. Mae gan y person â chyfrifoldeb weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y lleoliad a chaiff gefnogaeth dda iawn gan yr uwch-dîm rheoli. Mae datganiad o ddiben clir sy'n galluogi'r rhieni i benderfynu a yw'r lleoliad yn addas i'w plentyn. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn helpu'r lleoliad i redeg yn ddidrafferth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau amgylchedd trefnus, mae'n hawdd cael gafael ar ddogfennau ac maent mewn trefn dda. Mae ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac mae'r holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, sy'n eu galluogi i nodi eu cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau adolygiad manwl o ansawdd y gofal er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer gwelliannau, gan ystyried safbwyntiau'r rhieni, y plant a'r staff.

Mae system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y staff yn gyfredol. Mae pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf, fel cymorth cyntaf, diogelu a hylendid bwyd. Mae llawer o gyfleoedd i'r staff ddatblygu eu hunain yn broffesiynol gyda chyfleoedd rhagorol i gael hyfforddiant ychwanegol. Mae'r staff yn cael budd o fod yn rhan o'r fenter Dechrau’n Deg sy'n golygu bod mwy o hyfforddiant ar gael iddynt. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod y rheolwr yn eu cefnogi a'i fod bob amser ar gael i'w cefnogi unrhyw adeg, yn broffesiynol ac yn bersonol. Mae digon o staff cymwys a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn cael gofal da bob amser. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a'u bod yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae'r staff yn ei wneud at ddatblygiad eu plant. Soniodd llawer ohonynt am yr ap electronig y mae'r gwasanaeth yn ei ddefnyddio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am yr amser y mae eu plentyn yn ei dreulio yn y lleoliad.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i ymarfer a datblygu ei sgiliau annibyniaeth yn ystod amser byrbryd.

A2. Sicrhau bod unrhyw wifrau a/neu blygiau allan o gyrraedd y plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/02/2023